PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 37 Medi 14, 2023 50c.

## SYMUD O SARON I GARDEN SUBURB

Mae'r Parchg Aled Jones wedi symud o'i ofalaeth yng ngorllewin Cymru i wasanaethu Eglwys Rydd, Hampstead Garden Suburb, Llundain, lle cynhaliwyd y cwrdd sefydlu bnawn Sadwrn, 2 Medi.

Er bod yr oedfa wedi ei chynnal drwy gyfwng y Saesneg roedd tinc Gymreig i'r prynhawn gydag emynau donau o Gymru, datganiadau ar yr organ o alawon Cymraeg a datganiadau hyfryd gan gôr yr eglwys, ac yn eu plith, campwaith John Rutter 'Yr Arglwydd a'th fendithio'.



### Yn cymryd rhan

Ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr oedfa gofiadwy oedd Dr Hefin Jones ar ran Coleg yr Annibynwyr Cymraeg, Keith Evans ar ran Gofalaeth Carmel Pren-gwyn, Saron Llangeler and Soar Pen-boyr; Glenys Earnshaw ar ran Cyfundeb Llundain, y Parchg Rob Nicholls ar ran Eglwysi Cymraeg Llundain a thraddodwyd y bregeth yn yr oedfa gan y Parchg Beti-Wyn James. Hyfryd oedd cael cwmni'r Parchgn Gwylfa Evans ac Anthony Williams hefyd. Dymunwn fendith Duw ar Aled yn ei weinidogaeth newydd a dymunwn yn dda i'r teulu cyfan yn eu cartref newydd.



Roedd gan Hampstead Garden Suburb Free Church le unigryw yn hanes Cristnogaeth yn Lloegr pan agorodd yr eglwys yn 1911, oherwydd mai hi oedd y cyntaf a oedd yn agored i bawb o bob enwad. Mae'n dal yn agored i bawb heddiw o hyd. Cafodd yr eglwys ei chynllunio gan y pensaer enwog Edwin Lytuens, a fu'n gyfrifol am sawl adeilad nodedig arall, yn ogystal a chofebau rhyfel – gan gynnwys y Cenotaph yn Whitehall.

## Argraffiadau'r Llywydd

*Dyma'r ail erthygl am argraffiadau'r Parch Beti Wyn James yn ystod ei thymor fel llywydd Undeb yr Annibynwyr.*



### #llywyddardaith

Pan gychwynnais i fy llywyddiaeth roeddwn wedi gobeithio agor tudalen Facebook neu gyfrif Twitter yn enw'r llywydd ond ni ddaeth hynny i fwcwl yn anffodus. Serch hynny, cychwynnais *hashtag* o dan yr enw 'llywydd ar daith' ar fy nghyfrifon personol - a hynny yn bennaf er mwyn i mi gadw cofnod o'r holl lefydd a'r holl achlysuron yr oeddwn wedi bod ynddynt ar ran yr Undeb ac yn enw'r Undeb - yn gyfarfodydd cydenwadol a chyfundebol a llawer mwy.

Ychydig a feddyliais y byddai cymaint o ddiddordeb yn fy *hashtag* a chymaint o ddilynwyr iddo. Dyma i chi flas ar yr *hashtag* 'llywydd ar daith'. Felly, wrth drosglwyddo Beibl y llywydd i'm holynydd rwyf hefyd yn trosglwyddo *hashtag* y llywydd iddo, gan obeithio y gwnaiff Jeff ddefnydd ohono oherwydd mae'n amlwg bod diddordeb mawr yn ein gwaith, a hynny o bosib gan rai nad yw eu henwau mor amlwg â hynny i ni.

### Ymateb i angen

Mae cadeirio amryw o gyfarfodydd o fewn yr Undeb wedi bod yn fraint fawr, ac er bod materion digon heriol yn codi o bryd i'w gilydd, da yw ein bod yn medru trafod y pethau mwyaf anodd yn yr ysbryd gorau. Braint oedd gweld cyhoeddi'r pecyn ardderchog ar Eglwysi Dementia Gyfeillgar a gweld prosiectau fel Economi Bywyd a Hinsawdd a'r Genhadaeth Ddigidol yn datblygu. Braint hefyd oedd rhyddhau neges y llywydd adeg y Gwyliau Eglwysig a hefyd wneud datganiadau mewn ymateb i argyfyngau. Ymddangosodd y

*parhad ar dudalen 2*

# Y *GRONYN* OLAF

*Mae'n ddiwedd cyfnod i eglwysi Gofalaeth Fro'r Llechen Las wrth i wythnosolyn* Gronyn *gael ei gyhoeddi am y tro olaf yn sgil ymddeoliad eu gweinidog y Parchg John Pritchard, Llanberis.*

Mae wedi cyhoeddi ei 1,000fed rhifyn o'r wythnosolyn ar ôl bod wrthi'n ddi-dor ers 2001, gan anfon neges arbennig i'w aelodau trwy gyfrwng erthyglau amserol. Ond trwy gyfrwng y we mae cynulleidfa ehangach wedi cael budd o'r negeseuon.

### Trump a Johnson wedi ysgogi sawl erthygl!

'Cyndyn fues i am flynyddoedd o gyhoeddi dim, ond mi wnes i fentro a tharo mae'n debyg ar ryw ffurf neu gyfrwng y deuthum yn weddol hyderus ag o,' meddai'r Parchg John Pritchard wrth siarad ar *Bwrw Golwg* ar BBC Radio Cymru. Mae gwleidyddion, yn enwedig Donald Trump a Boris Johnson, wedi rhoi sawl syniad am erthygl, meddai.

'Math o ddamhegion fu'r erthyglau, yn cychwyn 'efo darlun neu stori a fyddai'n arwain at y neges.

Mae'r testunau cychwynnol wedi bod yn amrywiol. Mae'r byd gwleidyddol wedi rhoi sawl erthygl i mi ond hefyd chwaraeon, digwyddiadau'r dydd neu'r wythnos flaenorol, y gwyliau Cristnogol wrth gwrs, troeon trwstan a phethau y byddwn wedi eu darllen neu wedi eu clywed ar y radio neu weld ar y teledu.'



### Neges i herio ac i gysuro

'Dyma fentro cyhoeddi'n wythnosol a gweld yn fuan bod hynny'n haws nag yn fisol, am iddo ddod yn rhan o batrwm gwaith yr wythnos. Yr ysgogiad oedd yr awydd i ehangu'r maes cenhadol o fewn y gymuned leol. Roeddwn i wedi bod yn sgwennu colofn fisol i bapur bro *Eco'r Wyddfa* ers naw mlynedd erbyn hynny, a phobl yn ddigon caredig yn gwerthfawrogi'r negeseuon. Teimlais awydd wedyn i wneud peth tebyg yn fwy rheolaidd yn enw'r eglwysi, a mynd ati o ddifri i gyhoeddi taflen a fyddai'n cynnwys newyddion am weithgaredd a bywyd yr eglwysi ond yn bwysicach na hynny neges i herio ac i gysuro pobl yn enw'r Efengyl,' meddai John Pritchard.

### Cynnydd yn y cylchrediad

'Er mai ar fore Sul yn y capel y byddai'r daflen ar gael gyntaf roedd yn fwriad o'r cychwyn i wneud ymdrech i'w danfon wedyn i gartrefi holl aelodau'r eglwysi. Dwi'n ddiolchgar i bawb a fu'n helpu i wneud hynny ar hyd y blynyddoedd; ac wrth i'r blynyddoedd fynd ymlaen roedd mwy a mwy o bobl nad oedden nhw'n aelodau yn derbyn copi bob wythnos, a'r neges felly'n cyrraedd cynulleidfa ehangach.

'Mi ddatblygodd pethau ymhellach wedi i ni gael gwefan i'r ofalaeth, a dechrau ei osod ar honno bob Sul, ac mae erthyglau'r tair blynedd ar ddeg diwethaf i'w gweld ar wefan Gronyn gan ehangu'r gynulleidfa. Yr unig nod o'r cychwyn fu rhannu'r Efengyl, y newydd da am Iesu Grist: yr un nod a'r un dyhead ag a fu gen i ar hyd y weinidogaeth. Gobeithio iddo fod yn gyfrwng i fynd â neges yr Efengyl at bobl o fewn ac o'r tu allan i'r eglwysi. Os gwnaed hynny, mi fu'n werth yr ymdrech.'

### Dewis yr enw

Fe ddewiswyd yr enw *Gronyn* am 'mai rhywbeth bach oedd o,' ychwanegodd Mr Pritchard. 'Dim cylchgrawn ydi o ond



Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Rhif 1000

27 Awst 2023

Gronyn

Gobaith maddeuant

'Oherwydd y mae mil o flynyddoedd yn dy olwg fel doe sydd wedi mynd heibio, ac fel gwyliadwriaeth yn y nos.' Dyna ddywed Salm 90:4. Gaf fi fentro gwneud rhywbeth na fyddwn fel arfer yn ystyried ei wneud? Rhywbeth na ddylwn ei wneud ond y caf, gobeithio, faddeuant amdano: aralleirio'r adnod, a dweud bod 'mil o rifynnau yn dy

Ar ddiwedd bywyd, medd y Salmydd, rhaid wynebu Duw'r Barnwr sy'n gosod 'ein camweddau o'th flaen, ein pechodau dirgel yng ngoleuni dy wyneb'. Ac yna, mae'n cydnabod hawl Duw i fod yn ddig, cyn ceisio cymorth i fod yn ddoeth trwy erfyn am ei drugaredd. Gerbron Duw'r Barnwr sy'n gweld a chofio pob pechod a

pamffledyn neu daflen (4 tudalen x A5) ac mae'n adlais o'r defnydd o'r gair yn y Beibl. Mae Iesu Grist, er enghraifft, yn cymharu teyrnas Dduw i "ronyn o had mwstard" yr hedyn lleiaf o'r holl hadau, ond pren cadarn yn tyfu o'r gronyn bach. Y bwriad oedd y byddai Gronyn yn medru bod yn rhan o'r weinidogaeth o arwain pobl i ffydd syml yn Iesu Grist.'

'Mi wnes i ystyried dal ati ar y we, ar ôl ymddeol, ond gan fod Gronyn yn rhan ganolog o'r weinidogaeth, ac wedi ei gyhoeddi bob Sul ar wahân i fis gwyliau'r haf am 22 o flynyddoedd – bron i hanner y cyfnod y bûm yn weinidog – mae'n gwneud synnwyr dod â fo i ben heddiw.'

**Mae cyfweliad y Parchedig John Pritchard i'w glywed yn llawn ar BBC Sounds.**

(Yn rhan o ofalaeth fro'r Llechen Las mae eglwysi Cefnywaun ac Ebeneser yn Neiniolen, Capel Coch a Nant Padarn yn Llanberis, Capel Bethlehem yn Nhal-y-bont a chapel Carmel yn Llanllechid.)

# Argraffiadau'r Llywydd – *parhad*

negeseuon a'r datganiadau hyn nid yn unig mewn geiriau digidol ond hefyd mewn ffilm. Rwy'n credu bod rhyddhau datganiadau yn bwysig, a bod eu rhyddhau yn y modd mwyaf gweladwy â phosib yr un mor bwysig. Diolch i Rhodri Darcy ac Alun Lenny am bob cymorth gyda'r datganiadau hynny. Mae ein presenoldeb fel Undeb ar y llwyfan digidol yn allweddol heddiw. Rydym yn Undeb bach iawn o eglwysi, ond dyw hynny ddim yn golygu bod ein llais yn fach ac yn wan. Fe allwn ni weiddi yr un mor uchel ag unrhyw gorff eglwysig arall pan mae gennym dân yn ein boliau i weithio o blaid cyfiawnder yn ein byd. A dweud y gwir, mae angen i ni weiddi'n uchel, oherwydd tuedd y wasg yw gwrando ar leisiau cyrff eglwysig llawer mwy na ni, ond daliwn ati i gyhoeddi a gweithredu.

### Personol

Ar nodyn personol, ni fu'r cyfnod hwn gyda'r gorau i ni fel teulu bach. Pan ges i fy ethol yn is-lywydd roedd fy mam a 'nhad yn fyw ac yn rhannu â mi yn llawenydd yr achlysur. Erbyn hyn, mae'r ddau wedi ein gadael. Yn naturiol, mae'r hiraeth yn fawr ond y diolchgarwch yn fwy. Mae fy ngwerthfawrogiad i ac Elin a Sara am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd oddi wrthych ar awr dywyll, yn fawr iawn.

### Gwaith mawr y tîm bach

Bu'n fraint cydweithio â staff a swyddogion yr Undeb dros y ddwy flynedd diwethaf. Dyma i chi enghraifft arall o waith mawr yn cael ei gyflawni gan dîm bach. Ar ein rhan ni i gyd, hoffwn ddiolch i staff Tŷ John Penri ynghyd â swyddogion eraill yr Undeb am eu gwaith da. Rwyf bellach yn gyn-lywydd ac awenau'r Undeb yn nwylo diogel y Parchg Jeff Williams. Dymunaf yn dda i Jeff, a diolch a chanmil diolch i chi i gyd, am y fraint o gael eich arwain fel Undeb dros y ddwy flynedd diwethaf hyn.

Dyma fydd fy *hash-tag* olaf fel Llywydd – #Diolch

**Beti-Wyn James**

Yr Adran
Gydenwadol

MEDI 14 2023 RHIF 133

# Daeargryn Moroco

Gyda gofid y clywsom am y daeargryn yn Moroco rai dyddiau yn ôl, a chofiwn am y sefyllfa ddyngarol hon yn ein gweddïau. Mae modd ymateb yn ymarferol hefyd drwy gyfrannu arian. Mae DEC ar hyn o bryd yn adolygu'r sefyllfa, ond yn tynnu ein sylw at y ffaith fod y Groes Goch eisoes wedi sefydlu cronfa argyfwng: Morocco Earthquake Appeal, a bod modd cyfrannu at eu gwaith

Yn hwyr nos Wener, 8 Medi, fe drawodd daeargryn o faint 6.8 rannau o wlad Moroco, gyda'r uwchganolbwynt ym Mynyddoedd yr Atlas Uchel, tua 50 milltir i'r de o Marrakech. Dilynodd ôl-sioc, maint 4.9, ugain munud yn ddiweddarach. Mae'r awdurdodau lleol eisoes yn adrodd bod dros 2,000 o bobl wedi marw, a llawer mwy wedi cael eu hanafu. Mae miloedd wedi colli eu cartrefi a'u heiddo, gyda thoriadau i wasanaethau fel dŵr a thrydan. Mae'r niferoedd hyn yn debygol o godi eto yn y dyddiau nesaf wrth i effaith lawn y trychineb ddod yn amlwg.

Mae gweithwyr argyfwng y Groes Coch yn Moroco eisoes yn ymateb i'r daeargryn, yn cynnwys darparu cymorth cyntaf i'r rhai sydd wedi'u hanafu a chefnogaeth emosiynol i bobl mewn sioc.



### Pwyntiau gweddi

Mae'n debyg mai'r broblem fwyaf ar hyn o bryd yw gallu'r gwasanaethau brys i fynd i mewn ac allan o'r rhanbarth yr effeithir arno fwyaf. Mae ffyrdd yr ardal yn hynod gul – un ffordd i mewn ac un ffordd allan – a bydd y difrod i'r ffyrdd hynny yn rhwystr i'r gwasanaethau. Bydd yn rhaid cael tîm o arbenigwyr i dwrio yn y rwbel, a hynny mewn amgylchiadau anodd a heriol, er mwyn i'r cyflenwadau sylfaenol – yn offer, bwyd a diod – gyrraedd y rhai sydd mewn angen.

Gweddïwch am ddiogelwch pobl wrth iddyn nhw geisio ymdopi â'r argyfwng ac unrhyw ôl-gryniadau pellach. Gweddïwch dros y genedl – y bydd pobl yn gallu dod at ei gilydd a defnyddio'u hadnoddau, eu gwasanaethau brys a'r ysbytai mewn ffyrdd doeth ac mor effeithiol â phosib. Gweddïwch y bydd y gymuned ryngwladol yn ymateb yn hael ac yn sydyn gyda chymorth ariannol ac ymarferol. Gweddïwch hefyd dros y Cristnogion sy'n byw yno, y gallant fod yn oleuni ac yn halen i'r bobl o'u cwmpas.


Arglwydd, clyw ein gweddi dros bawb sydd wedi eu heffeithio gan y daeargryn diweddar ym Moroco. Bydded iddyn nhw deimlo dy freichiau cysurus di yn eu cwmpasu a'u cynnal yn y cyfnod heriol hwn. Gweddïwn y bydd cymorth yn eu cyrraedd yn fuan, er mwyn achub a thrin y rhai sy'n dal yn y rwbel. Gweddïwn dros y mudiadau dyngarol a fydd yn gweithio yn y rhanbarth – y byddant yn medru ymateb yn sydyn ac effeithiol, ac y bydd iddynt gael eu cadw'n ddiogel wrth weithio yn yr ardal. Gweddïwn hefyd dros bawb sy'n brwydro yn erbyn effeithiau trychinebau naturiol – bydded iddynt ddod o hyd i nerth a gobaith yn dy enw di. Yn wyneb y colledion a'r marwolaethau, gofynnwn iti gysuro a nerthu aelodau teuluoedd y rhai a fu farw. Yn enw Iesu, Amen.

# Cyhoeddi nifer o gyfrolau Cristnogol dros gyfnod yr haf

Fel rhan o fwrlwm Pabell yr Eglwysi yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd eleni gwelwyd cyhoeddi nifer o lyfrau Cristnogol newydd. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn tynnu sylw at y cyfrolau unigol hynny, gan gyhoeddi adolygiadau ohonynt. Dyma grynodeb o'r hyn a ddigwyddodd felly yn y babell, gyda chyflwyniadau byr i'r cyfrolau.

### Cysuro'r Claf

Dyma gyfrol werthfawr a defnyddiol sy'n ymdrin â phwnc pwysig cysuro cleifion o safbwynt Cristnogol ac yn benodol ysbrydoledd yn yr ysbyty. Cafodd y ddarlith ei thraddodi'n wreiddiol fel Darlith Davies (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) 2021. Bu'r awdur, y Parchedig Eric Jones, yn gaplan yn Ysbyty Gwynedd am dros ddeng mlynedd ar hugain. Daeth tyrfa niferus ynghyd ar gyfer y cyfarfod lansio, a lywyddwyd gan y Parch. Ddr John Tudno Williams, gyda







John Tudno Williams, Dr John Williams ac Eric Jones yn lansio *Cysuro'r Claf*


chyfraniad arbennig gan y meddyg o Lerpwl, Dr John Williams. Yn dilyn y lansiad trefnwyd lluniaeth yn y babell, gan gynnwys cacennau a manylion clawr y llyfr arnynt. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Wasg y Bwthyn ac mae ar gael yn y siopau am £6.95.


*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## *Cyhoeddi nifer o gyfrolau Cristnogol dros gyfnod yr haf*
*(parhad o dudalen 1)*

### Ffenestri Gobaith

Cyfrol o farddoniaeth gan y bardd John Emyr o Gaerdydd yw'r gyfrol hon. Mae *Ffenestri Gobaith* yn tarddu o awen y bardd a'i argyhoeddiad Cristnogol. Bydd y casgliad o ddiddordeb i'r rhai sy'n mwynhau darllen barddoniaeth yn y mesurau caeth a rhydd, ac mae'n cynnwys cerddi coffa i nifer o bobl o Gymru a thu hwnt. Cafwyd cyfarfod hyfryd i lansio'r gyfrol, gan gynnwys cyfle i glywed y Prifardd Siôn Aled Owen yn darllen rhai o'r cerddi yn y gyfrol. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair, ac mae ar gael yn y siopau am £7.99.




John Emyr gyda'i gyfrol *Ffenestri Gobaith*

### Liliau Tân

Cyfrol gofiannol yw *Liliau Tân*, addasiad o *Fire Lilies* gan Dr Rhiannon Lloyd, yn adrodd ei hanes yn gweithio mewn gwledydd megis Rwanda. Paratowyd yr addasiad Cymraeg gan Arfon Jones, a braf oedd cael cwmni'r ddau ohonynt yn y babell ar gyfer lansio'r gyfrol. Profiad gwefreiddiol oedd clywed Rhiannon yn rhannu rhai o'i phrofiadau yn gweithio yn Rwanda, a chafwyd gwerthfawrogiad o'i chyfraniad gan amryw a ddaeth ynghyd ar gyfer y lansio. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair ac mae ar gael yn y siopau am £11.99.

### Gwasanaethu'r Duw Byw


Cyhoeddwyd y gyfrol hon o waith Dafydd Andrew Jones, sy'n llawlyfr cynhwysfawr ar stiwardiaeth Gristnogol, yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Gan nad oedd yr awdur yn medru bod yn yr ŵyl eleni, trefnwyd cyfarfod arbennig i lansio'r gyfrol yng Nghapel y Crwys, Caerdydd, ddechrau Medi. Braf oedd croesawu cynulleidfa yno ar fore Sadwrn, gan gynnwys aelodau o deulu Dafydd. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch. Glyn Tudwal Jones, ac yn dilyn cyflwyniad gan yr awdur, cafwyd gair o werthfawrogiad gan Rheinallt Thomas. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair ac mae ar gael yn y siopau am £9.99. Dyma gyfrol ddefosiynol sy'n ddelfrydol fel maes trafod i seiat neu ddosbarth ysgol Sul oedolion, sy'n cynnwys 15 o sesiynau ymarferol ar stiwardiaeth Gristnogol.







Dr Rhiannon Lloyd ac Arfon Jones yn lansio *Liliau Tân*






Aled Davies, Dafydd Andrew Jones, Glyn Tudwal Jones a Rheinallt Thomas yn lansio *Gwasanaethu'r Duw Byw*

## 'Dringo'r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?'

## Darlith er cof am y Parch. J. Lloyd Jones

### gan y Parch. Siôn Brynach Prif Weithredwr Cytûn, Eglwysi ynghyd yng Nghymru



Siôn Brynach yng Nghlynnog gyda Casi Jones a Rosie Dymond

### Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr nos Fercher, 9 Awst 2023

Gellir darllen y ddarlith gyfan ar wefan Cytûn

# ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

### 39 'ac efe a gasglwyd at ei bobl'

**Darllen: Genesis 25:1–11**

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 168)

Wrth gloi'r gyfres yma ar Abraham, yr wyf am nodi fy niolch i olygyddion *Cenn@d* am gael gwneud y gwaith. Mae wedi bod yn fendith arbennig, a cefais olwg newydd dro ar ôl tro ar berthnasedd yr hanes yma i 'mywyd ysbrydol fy hun. Rwyf wedi cael fy atgoffa o'r newydd o'r cyfoeth sydd yng ngair Duw, ac wedi fy nghyfoethogi drwy'r paratoi.

Un o'r pethau sydd wedi aros yw'r gwirionedd fod y Beibl, dair gwaith, yn cyfeirio at Dduw yn arddel Abraham fel ffrind iddo: 'Onid ti, ein Duw, a yrraist drigolion y wlad hon allan o flaen dy bobl Israel, a'i rhoi hi am byth i had Abraham, dy gyfaill?' (2 Cronicl 20:7); 'Ti, Israel, yw fy ngwas; ti, Jacob, a ddewisais, had Abraham, f'anwylyd' (Eseia 41:8); 'Felly cyflawnwyd yr Ysgrythur sy'n dweud, "Credodd Abraham yn Nuw, ac fe'i cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder"; a galwyd ef yn gyfaill Duw' (Iago 2:23).

Mae'n debyg eich bod chi'n llawen iawn o wybod fod 'na rywrai'n eich galw'n ffrind, ond mae yna rywbeth dealladwy am hynny. Beth sy'n annealladwy yw sut mae'r Duw cyfiawn, sanctaidd, hollddigonol yn barod i'n goddef ni fel ffrindiau. Pa fath o ras a thrugaredd yw hyn? Eto, fe wyddom mai dyna yw braint pobl Iesu: 'Nid wyf mwyach yn eich galw yn weision, oherwydd nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud. Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion, oherwydd yr wyf wedi gwneud yn hysbys i chwi bob peth a glywais gan fy Nhad. Nid chwi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chwi' (Ioan 15:15–16).

Heddiw, rydym yn edrych ar farwolaeth Abraham, ac yn ôl Alun Morton Thomas, mae cyfieithiad William Morgan o adnod 8 yn cyfleu'r gwreiddiol yn rhagorol: 'Ac Abraham a drengodd, ac a fu farw mewn oed teg, yn hen, ac yn gyflawn o ddyddiau; ac efe a gasglwyd at ei bobl.' Mae'r cymal cyntaf yn llythrennol yn cyfeirio at y gŵr yma'n cymryd ei anadl olaf. Roeddwn yn darllen bod pobl yn anadlu tua 16 gwaith bob munud ar gyfartaledd, tua 960 gwaith yr awr, 23,000 o weithiau'r dydd; ac os byddwch byw i fod yn 80, byddwch wedi cymryd tua 672 miliwn anadliad! Wrth bregethu yn Athen dywed Paul am y Duw sy'n 'rhoi i bawb fywyd ac anadl a'r cwbl oll' (Actau 17:25). Ond mae yna anadl olaf, a bellach dyma oedd hanes Abraham, fel pob un ohonom. Cyn cymryd yr anadl hwnnw, mae Abraham wedi rhoi trefn ar ei bethau, wedi trosglwyddo'r cyfan o'i eiddo i Isaac, yr un oedd yn etifedd, yn had, ac wedi cofio hefyd am y plant eraill. Ond nid iddynt hwy yr oedd y wlad, mwy nag i Ismael.

Bellach mae'n 175 oed, union gant o flynyddoedd ar ôl dod i wlad yr addewid, er nad oedd yn berchen ar fwy na ffynnon ac ogof yn y lle hwnnw. Ond yr oedd 'yn gyflawn o ddyddiau', hynny yw, yr oedd wedi ei fendithio, wedi ei fodloni, ac yn marw'n dawel. Y gwir yw, pa un a ydych yn byw nes y byddwch yn gant, neu'n marw yn ifanc, mae yna ffordd o farw'n dawel. Cofiaf y Parch. Gareth Davies yn adrodd am gael gwasanaethu yn ystod salwch ac angladd un o ferched ifanc Gwauncaegurwen. Fel mae'n digwydd, bu i'w chwaer farw ychydig flynyddoedd yn unig yn ôl, ac yr oeddwn yn siarad â phobl oedd yn ei hadnabod hithau yn ei henaint. Yr hyn oedd yn gyffredin am y ddwy oedd eu bod wedi marw'n dawel, wedi treulio'u bywyd yn dilyn Iesu ac yn ymddiried ynddo.

Beth arall fyddai wedi bod yn ddigon i Abraham? Roedd wedi siomi'r Un a'i galwodd i berthynas bersonol ag ef ei hun droeon, ac eto, yr oedd wedi adnabod trugaredd a thynerwch y Duw hwn. Tebyg ei fod ef, fel ninnau, wedi ceisio bod yn ffyddlon, ond wedi methu, a'r methiannau hynny wedi eu cofnodi. Ond nid yn y nefoedd! 'Pwy sydd Dduw fel ti, yn maddau camwedd, ac yn mynd heibio i drosedd gweddill ei etifeddiaeth? Nid yw'n dal ei ddig am byth, ond ymhyfryda mewn trugaredd. Bydd yn tosturio wrthym eto, ac yn golchi ein camweddau, ac yn taflu ein holl bechodau i eigion y môr' (Micha 7:18–19). Un o freintiau mwyaf arwain eglwys oedd cael cadw cwmni i'r bobl hyn oedd yn marw'n dawel, yn pwyso ar waith, ar berson, ar drugaredd Iesu.

Wedi marw, mae'r Beibl yn glir am ein tynged fel plant, fel ffrindiau Iesu: 'ac efe a gasglwyd at ei bobl'. Nid cael ei gladdu gyda'i dylwyth – roedd y rheini yn ôl yn Ur y Caldeaid! Mae awdur Genesis yn mynd ymlaen i ddweud bod ei gorff marwol yn cael ei gladdu gyda Sarah (adn. 10), ond o ran ei enaid, mae yng nghwmni 'ei dylwyth', teulu pobl yr Arglwydd.

Un o'r bobl oedd yn byw ychydig wedi cyfnod Abraham oedd Job, ac yr oedd yntau'n rhannu yr un hyder am dynged eneidiau (a chyrff) y teulu yma: 'Ac er ar ôl fy nghroen i bryfed ddifetha'r corff hwn, eto caf weled Duw yn fy nghnawd: Yr hwn a gaf fi i mi fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall; er i'm harennau ddarfod ynof' (Job 19:26–7). Dyma welodd Steffan: ' "Edrychwch, 'rwy'n gweld y nefoedd yn agored, a Mab y Dyn yn sefyll ar ddeheulaw Duw." ... Ac wrth iddynt ei labyddio, yr oedd Steffan yn galw, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd." ' (Actau 7:56,59) Mae ein hyder, fel hyder Abraham, yn deillio o'r etifeddiaeth sydd ar ein cyfer: 'yr ydym ni sydd yn y babell hon yn ochneidio dan ein baich; nid ein bod am ymddiosg ond yn hytrach ein harwisgo, er mwyn i'r hyn sydd farwol gael ei lyncu gan fywyd. ... Yr ydym yn llawn hyder, meddaf, a gwell gennym fyddai bod oddi cartref o'r corff a chartrefu gyda'r Arglwydd.' (2 Corinthiaid 5:4,8)

1. Roedd rhywun yn dweud wrthyf y dydd o'r blaen eu bod yn ffrindiau â mi ar Facebook! Pa berson yw ein ffrind gorau, a sut mae Iesu yn ffrind sy'n rhagori ar bob ffrind?
2. Sut y medrwn ddysgu ein hunain i fod yn fwy ystyriol o'r Duw sy'n rhoi pob anadliad inni?
3. Pa mor aml y byddwch yn meddwl am 'farw'n dawel'? Wrth ystyried yr hyn ddywed y Beibl, sut y mae diogelu hynny o flaen llaw?

Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar iawn gyfraniad y Parch. Meirion Morris i *Cenn@d* dros y flwyddyn ddiwethaf yma. Bu wrthi'n ddiflino a phrydlon yn paratoi ei astudiaethau ei hun ar fywyd Abraham yn Genesis. Dyma waith sydd wedi bod yn anogaeth i'r Cristion ac yn her inni fyw'r bywyd o ffydd sydd yn plesio'r Arglwydd yn ein dyddiau ninnau. Y mae'n gyfraniad a fydd ar gael inni am flynyddoedd i ddod wrth fynd ati i astudio'r penodau hyn o lyfr Genesis ac y bydd modd troi atynt yn yr ôl-rifynnau ar wefan *Cenn@d*. Dymunwn bob bendith i Meirion i'r dyfodol ac edrychwn ymlaen at gyfraniadau achlysurol pellach ganddo i'r papur. (Y Golygyddion)

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 17 Medi, am 7:30yb a 16:30yp**
Rhys Griffiths yn cyflwyno emynau gan C.Ô.R., Côr Caerdydd a Chantorion Creigiau

**Sul, 17 Medi, am 12yp**
Oedfa dan ofal Steffan Jones, Llanelli


(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# ARIAN Y RHYFEL CARTREF (2): DIM PEN BRENIN!

*Yn y diweddaraf mewn cyfres o erthyglau i'r* Tyst *am hen ddarnau arian o'i eiddo, fe wnaeth Alun Lenny sôn am arian a fathwyd yng nghastell Aberystwyth gan y brenin Charles I yr 17eg ganrif. Yn yr erthygl hon, mae'n cyfeirio at ddarn sy'n dwyn i gof 'teyrnasiad' Oliver Cromwell, y gŵr o dras Gymreig a fu'n gyfrifol am ddienyddio'r brenin hwnnw a sefydlu gweriniaeth ym Mhrydain am yr unig dro yn ei hanes hir ar ddiwedd Rhyfel y Tair Teyrnas, fel ei gelwir bellach.*

Gwrthdaro crefyddol rhwng Cristnogion oedd y Rhyfel Cartref i raddau helaeth iawn. Mynnai'r brenin Charles ei fod yn teyrnasu trwy ras Duw, ac felly'n bennaeth yr eglwys wladol. Roedd hynny'n syniad gwrthun i'r Annibynnwr Oliver Cromwell, a gredai yng ngallu'r Cristion unigol i sefydlu perthynas gyda Duw trwy weddi, a hawl y gynulleidfa leol i ddewis eu gweinidog i'w cynnal trwy bregethu. Mae hynny'n unol â'n traddodiad ni'r Annibynwyr heddiw – nid ein bod ni'n credu y dylid torri pen y Charles presennol, fel digwyddodd i'w ragflaenydd anffodus o'r un enw yn 1649!



Ffermwr a etholwyd yn Aelod Seneddol dros Gaergrawnt oedd Oliver Cromwell am flynyddoedd. Ond yn ystod y Rhyfel Cartref cafodd ei benodi'n gadfridog marchfilwyr y New Model Army, ac ar ôl trechu lluoedd y brenin a'i ddienyddio, ei ddyrchafu'n Arglwydd Amddiffynnydd y Gymanwlad. Yn ystod cyfnod y weriniaeth o 1649-60, bathwyd darnau arian, a oedd yn naturiol, heb ddelwedd pen unrhyw frenin arnynt. Darn hanner grôt (dwy geiniog) sydd gennyf i – darn arian digon amrwd tua maint ewyn eich bys, heb eiriau o gwbl. Ar un ochr mae symbolau Lloegr ac Iwerddon, ac ar y llall croes Sant Siôr yn unig.

Ym 1657, fe wnaeth y Senedd gynnig y goron i Oliver Cromwell. Gwrthododd, gan ddweud: 'Ni fynnaf ail-sefydlu'r hyn y mae Rhagluniaeth wedi'i ddinistrio a'i osod yn y llwch.' Eto, fe fathwyd darn arian tua'r pryd hynny gyda delwedd o Cromwell arno a'r arysgrif, yn Lladin 'Oliver trwy Ras Duw, Gwarchodwr Gweriniaeth Lloegr, yr Alban ac Iwerddon.' Mae'n debyg na chafodd y darnau arian hyn erioed eu defnyddio, felly maent yn brin iawn. Byddai hwn yn costio £4,000 i'w brynu – sy'n esbonio pam nad oes un gennyf i!



### Iwerddon ac Iddewon

Er gwaetha'r ddelwedd gyffredin ohono fel 'y dyn wnaeth wahardd y Nadolig' ar sail ysgrythurol, doedd Oliver Cromwell ddim yn Biwritan eithafol. Yn ôl y sôn, roedd yn hoff o gerddoriaeth a hela, ac yn mwynhau gwydraid o sieri neu gwrw. Cafodd Iddewon eu gadael yn ôl i Brydain, am y tro cyntaf ers cael eu halltudio gan Edward I yn 1290, a chaniatáu iddynt gael synagogau a'u mynwentydd eu hunain. Ond mae enw Cromwell yn dal i fod yn wrthun yn Iwerddon oherwydd y lladdfeydd gan ei fyddin yn rhannau Pabyddol y wlad honno – llefydd fel Wexford a Drogheda. Mae haneswyr cyfoes o'r farn nad yw'r hanesion mor ddu a gwyn a hynny, ond does dim gofod yma i fanylu.

### Cromwell a Chymru

Yn ystod cyfnod y weriniaeth, neu'r Gymanwlad fel y'i gelwid, pasiwyd Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru er mwyn archwilio cyflwr yr eglwys wladol a hyrwyddo achos y Piwritaniaid. Cafodd mawrion fel Morgan Llwyd, Walter Craddock a Vavasor Powell y dasg o sicrhau bod offeiriaid yn gymwys i wneud eu gwaith, gan gynnwys pregethu yn Gymraeg. Dad-urddwyd nifer o offeiriaid, gan roi Piwritaniaid yn eu lle. Ar ôl i Oliver Cromwell farw, a chyfnod byr iawn ei fab Richard fel llywodraethwr, fe orseddwyd Charles II, ac fe gafodd gweinidogion oedd yn gwrthod cydymffurfio â'r *Llyfr Gweddi Cyffredin* eu diarddel. Dyma gyfnod 'troi allan' 130 o weinidogion Piwritanaidd yng Nghymru, gan gynnwys 30 o Annibynwyr – yn eu plith Stephen Hughes, 'Apostol Sir Gâr' a aeth ati i sefydlu nifer o eglwysi 'anghyfreithlon' mewn ysguboriau fferm a llecynnau anghysbell.

### Cadno neu arwr?

Er gwaethaf ymrwymiad Oliver Cromwell tuag at grefydd anghydffurfiol yng Nghymru yn ystod ei oes, nid oedd yn boblogaidd mewn gwlad a oedd, at ei gilydd, wedi cefnogi'r brenin yn y Rhyfel Cartref. Mynegodd beirdd fel John Griffith a Robert ap Huw hiraeth am 'hen Eglwys Loegr' tra gwnaeth Huw Morris o Lansilin ddisgrifio Cromwell fel cadno ymhlith y defaid. Flynyddoedd wedyn, fe ganodd yr eglwyswr Ellis Wynne yng *Ngweledigaethau'r Bardd Cwsg* am 'Cromwell a'i lofruddwyr.' Ond gyda thwf aruthrol Anghydffurfiaeth o'r 18fed ganrif ymlaen, fe dyfodd Oliver Cromwell yn dipyn o arwr gan y Cymry, gan mai dyna'r dyn oedd wedi bod yn gyfaill mawr i'r hen Biwritaniaid, eu hynafiaid yn y ffydd. Hyd y dydd heddiw, mae'n dal i fod yn gymeriad dadleuol, yn bennaf oherwydd ei hanes yn Iwerddon, yn fwy nag am ddienyddio'r brenin hyd yn oed! Mae cerflun ohono'n dal cleddyf a Beibl y tu allan i Balas San Steffan, ac yn 2004 cynigodd grŵp o Aelodau Seneddol y dylid ei ddymchwel. Ond mae'n dal yno.

## Cromwell y Cymro?

Yr enw teuluol oedd Williams. Roedd ei dadcu, Richard Williams, yn fab i Morgan ap William o Lanishen. Fe newidiodd Richard ei gyfenw i Cromwell ar ôl priodi Katherine, merch yr enwog Thomas Cromwell, prif weinidog Harri VIII. Roedd Oliver, fel ei dad, Henry, yn arddel y cyfenw 'Williams, alias Cromwell.' Dyna oedd ei enw pan briododd yn 1620. Roedd y teulu'n haeru bo nhw'n ddisgynyddion i Cadwgwn ap Bleddyn (m.1111), tywysog Powys. Er mai un o Huntington yn nwyrain Lloegr oedd Cromwell, ar ei sêl bersonol roedd elfennau o hen arfbeisiau tywysogion Powys, Morganwg, Ardudwy a Gwent. Pan yn Aelod Seneddol mainc gefn digon di-nod, fe gyflwynodd Cromwell ddeiseb i'r Senedd ar ran piwritaniaid yn Sir Fynwy oedd yn cael eu herlid gan yr awdurdodau.

# Barn Annibynnol

Oes gan eich gweinidog datŵ (hyd y gwyddoch)? A beth am y diaconiaid a'r codwr canu? A fyddai'n eich poeni pe bai ganddyn nhw fraich, coes neu wddw amryliw?

Cyhoeddwyd yn ddiweddar bod y Parch. Wendy Dalrymple wedi'i phenodi'n Bencantor, Darpar Ganon Preswyl a Phennaeth Addoliad a Digwyddiadau yng Nghadeirlan Caer-gaint. Bu'n gwasanaethu Eglwys Loegr ers blynyddoedd mewn gwahanol swyddi ac, ers 8 mlynedd, bu'n offeiriad ym mhlwyf Loughborough gan ymgymryd â sawl swydd yn esgobaeth Caerlŷr.



### Canmoliaeth yr Esgob

Yn ei gyhoeddiad am y penodiad, mae Esgob Caerlŷr yn diolch i Wendy am ei gwasanaeth gan ei chanmol am ei hangerdd a'i chydymdeimlad, ei doethineb a'i ffraethineb, ei dewrder a'i graslonrwydd wrth feithrin aelodau ei phlwyf a gwneud disgyblion ohonynt.

Wrth ymateb, mae hi'n mynegi gwerthfawrogiad o'r gymuned ffydd y bu'n rhan ohoni sy'n cael ei llywio gan gariad Duw. Dywed ei bod yn teimlo galwad i'r swydd yng nghadeirlan Caer-gaint, bod y cyfle'n fraint enfawr ac y bydd yn gweddïo bob dydd am gymorth yr Ysbryd Glân.

### Perthnasol i'r byd heddiw

Dywedodd Deon Caer-gaint eu bod wedi chwilio am rywun a allai wneud treftadaeth gyfoethog yr eglwys yn berthnasol i'n byd ni heddiw a bod profiad, gallu a phersonoliaeth Wendy'n ei gwneud yn ddelfrydol ar gyfer y swydd mewn cadeirlan sy'n dymuno gwasanaethu pawb a denu pobl i berthynas ddyfnach â Duw yng Nghrist.

Ardderchog, felly. Pawb yn hapus.

Wel, na, dim pawb … oherwydd mae gan y Parch Wendy Dalrymple datŵs.

### Negeseuon sarhaus

Cafwyd dros 1,000 o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymateb i'r penodiad. Roedd llawer yn diolch iddi am ei gweinidogaeth iddyn nhw'n bersonol a rhai'n ei llongyfarch ac yn dymuno'n dda iddi hi a'r gadeirlan, ond roedd nifer o negeseuon hollol sarhaus. Mewn ymateb i'r llun swyddogol ohoni yn y datganiad i'r wasg, cafodd ei chyhuddo o falchder ac ymffrost - pethau fel, 'She is an attention-seeking narcissist. The clergy should not be allowed to get tattoos.' Dadleuai rhai bod hyn yn profi na ddylid caniatáu i ferched gael swyddi o bwys yn yr eglwys.

### Torri deddf Lefiticus?

Trodd ambell un at yr Ysgrythur i gyfiawnhau eu beirniadaeth gan ddyfynnu Lefiticus 19:28, 'Nid ydych i wneud toriadau i'ch cnawd er mwyn y meirw, nac i ysgythru nodau arnoch eich hunain.' (BCN). Ond, yn ôl rhai esbonwyr, nid yw ystyr yr adnod hon yn eglur. Gall 'ysgythru nodau arnoch eich hunain' fod yn gysylltiedig â rhan gyntaf yr adnod a chyfeirio at ddefodau paganaidd mewn cyfnod o alar, meddent. Mae'n ymddangos nad yw beibl.net yn derbyn hynny achos dywed '(Peidiwch) torri'ch hunain â chyllyll wrth alaru am rywun sydd wedi marw. Peidiwch rhoi tatŵ ar eich corff.'

Ond mae'r bobl a ddyfynnodd yr adnod hon i gyfiawnhau eu dadl yn anwybyddu'r adnod flaenorol, 'Peidiwch siafio'r gwallt ar ochr eich pen, na thrimio'ch barf' a nifer fawr o adnodau eraill yn yr un rhan o'r Beibl fel gwaharddiadau ar fwyta porc a *prawns*, ac ar wisgo dillad a wnaed o ddau ddefnydd gwahanol.

### Cyfiawnhau rhagfarnau?

Roedd dau beth yn fy nharo i. Tybed a fyddai dyn a benodwyd i swydd uchel yn yr eglwys yn wynebu'r fath gasineb? Ac onid chwilio am gyfiawnhad dros eu rhagfarnau eu hunain mae pobl trwy ddyfynnu o'r Beibl i wrthwynebu tatŵs?

Ymddengys mai dyna yw barn Deon Caer-gaint. Ymatebodd gyda thristwch i'r negeseuon sarhaus gan ddweud eu bod yn benderfynol o sicrhau bod y gadeirlan yn mynd i'r afael â chasineb at fenywod, grym trahaus a rhagfarn, gan fod cariad Iesu'n mynnu hynny.

### Tatŵs crefyddol

Cafodd Wendy Dalrymple ei thatŵ cyntaf, croes fach, i ddathlu ei phen-blwydd yn 30, ac yna cafodd ragor, yn cynnwys un wedi'i seilio ar eicon modern o Fair Magdalen, ac un o'r enw 'ffrwyth dy groth' sy'n cyfleu'r ymgnawdoliad. 'Mae pob un yn dweud rhywbeth am fy ngalwad a'm ffydd ac maen nhw'n hynod bersonol,' meddai.

Dywed bod ei thatŵs yn aml yn destun sgwrs, gyda rhai pobl yn holi am y lluniau, ac eraill yn falch o weld offeiriad 'normal'.

'Gan fod tatŵs mor gyffredin erbyn hyn, rwy'n credu eu bod yn llawer mwy tebygol o chwalu rhwystrau na'u creu nhw,' meddai. 'Os gallaf i helpu pobl o bob cefndir i wybod bod ganddyn nhw le wrth y bwrdd yn yr eglwys, mae'n fy ngwneud i'n hapus.'

Felly, beth amdani? Tatŵ?

**Siân Roberts**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)


**Eglwysi Annibynnol Gellimanwydd Rhydaman a Moreia Tycroes**

Cynhelir

**Cyfarfod Sefydlu y Parchedig Ddr EMYR GWYN EVANS, BD**

**(Eglwysi Gofalaeth Bröydd Myrddin)**

yn weinidog i Iesu Grist yn yr eglwysi uchod yng

**NGHAPEL GELLIMANWYDD RHYDAMAN**

**nos Fercher 20 Medi 2023**

**am 7.00 o'r gloch**

Gwahoddir chwi yn gynnes i'r cyfarfod

Darperir lluniaeth yn neuadd Gellimanwydd

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# BEDYDD CREUNANT

Daeth cynulleidfa ynghyd yng nghapel Saron, Creunant ar gyfer oedfa fedydd a derbyn aelodau newydd. Yn ystod yr oedfa fe dderbyniwyd dau aelod newydd i mewn i deulu'r ffydd, sef Peter a Nerys. Estynnwyd deheulaw cymdeithas iddynt gan Rhys, bugail yr eglwys a Karen, diacones yr eglwys. Llawenydd hefyd oedd bedyddio tri yn ystod yr oedfa, sef: Rhys, Gerwyn a Rachel drwy drochiad ar lawnt y capel lle'r aeth y gynulleidfa allan i dystio'n llawen i'r sacrament cysegredig yma. Llewyrchodd yr Arglwydd ei fendith arnom yn ystod yr oedfa, a diolchwn iddo am y fath dywalltiad oddi uchod yn y Creunant.




Arloesi a Buddsoddi

Rhaglen Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Dyma gyfle i'r eglwysi gael nawdd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd.

Cynigir symiau sylweddol iawn – hyd at £50,000 dros gyfnod o 5 mlynedd.

Cysylltwch â Tŷ John Penri
undeb@annibynwyr.cymru 01792 795888

Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Morgannwg

## Pererindod y gân

Trywydd cerddorol Sian Meinir



**Sul y Cyfundeb**

**Capel y Nant,**
**Clydach, SA6 5HB**

**Sul, 24 Medi, 2023**

I ddechrau am 10.30 y bore

Lluniaeth a chyfarfod i drafod materion y Cyfundeb i ddilyn

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*